



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**Cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd yn Siambr Arfon, Swyddfa
Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon ar ddydd Iau, 6 Hydref 2011 am 10.30am**

Presennol –

Cynghorydd Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych (Cadeirydd)
Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Nancy Mathews – Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd
Cynghorydd W.J. Chorlton – Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Sharon Frobisher – Cyngor Sir Ddinbych

Hefyd yn bresennol

Cyngor Sir y Fflint

Mr Carl Longland, Ms Louise Pedreschi

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mr Andy Wilkinson

Cyngor Gwynedd

Mr Dilwyn Williams a Mr Gwyn Parry Williams

Cyngor Sir Ynys Môn

Mr Meirion Edwards

Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Mr Stephen Penny

YMDDIHEURIADAU Cynghorydd Meirion Hughes (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mrs Kerry Feather a Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Steffan Owen (Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) a'r Cynghorydd Alex Aldridge (Comisiynydd Cyngor Sir Ynys Môn)

1. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2011

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir

2. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect adroddiad cynnydd a nododd fod y prosiect yn symud ymlaen yn dda. Cafwyd trafodaeth barhaus rhwng y tri chyfranogwr ar faterion cyfreithiol, cyllidol a thechnegol. Symudodd y broses ymgynghori yn ei blaen trwy nifer o sesiynau ar draws ardal y bartneriaeth i randdeiliaid ac i'r cyhoedd i bwrpas trafod y prosiect. Mae'r gwariant gwirioneddol am y flwyddyn ariannol hon hyd at 19 Awst 2011 yn £312,096 a'r gwariant proffiledig am y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Gorffennaf 2011 yn £405,087, sef £92,991 yn is na'r proffil.

Nid oedd unrhyw fater mawr i adrodd amdano a dyma ddiweddariad ar faterion bychain yng nghyswllt y prosiect:-



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- ID 32 – Wedi datblygu opsiwn ar ail safle y mae'n bosib i'r Cyd-bwyllgor ei dderbyn. I'w drafod fel eitem eithriedig ar ddiwedd y cyfarfod.
- ID 61 - Cynhaliwyd sesiynau unigol rhwng Amec a'r awdurdodau unigol i fynd trwy'r modelau i lif gwastraff yn fanwl. Cynhaliwyd sesiwn o'r grŵp technegol i gytuno ar ragdybiaeth i'r lliw gwastraff.
- ID 78 – Cychwyn ar ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) unwaith y ceir gwybod am yr atebion ISDS, a phan fydd mwy o sicrwydd yng nghyswllt strwythurau tebygol y contractau. Angen cynnal rhywfaint o drafodaethau rhagarweiniol a gwneud peth gwaith datblygu yn ystod mis Tachwedd 2011.
- ID 85 – Yn gobeithio y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cael cyfarfod gyda'r tri chyfrannwr i drafod materion technegol yn codi o'r cynigion.

Yng nghyswllt Atodiad 1 yr adroddiad, yn amlinellu amserlen gaffael ac yn arbennig y cyfeiriad at benderfyniad yng nghyswllt priffordd/rheilffordd, credai un aelod mai'r awdurdodau priodol ddylai benderfynu ar y mater - nid y cydbwyllgor. Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr y Prosiect bod y cydbwyllgor â'r awdurdod dirprwyol priodol i wneud penderfyniadau o'r fath fel y gwelir hynny yn y Cytundeb a wnaed rhwng Awdurdodau, ond y gallai fod o fudd i aelodau'r Cyd-bwyllgor ganfasio barn y tu mewn i'w hawdurdodau perthnasol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

3. RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Prosiect yr Adroddiad Cofrestr Risg, a oedd yn amlygu rhai o'r diwygiadau a wnaethpwyd i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risg a'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

Canfuwyd risg yng nghyswllt PS 12 (Cynllunio a Chaniatáu). Roedd fersiwn ddrafft o'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi creu ansicrwydd yng nghyswllt statws y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol presennol. Bydd modd pwyso llai ar y Cynllun hwn wrth benderfynu ar gais cynllunio am gyfleusterau gwastraff os bydd yr ansicrwydd ynghylch ei statws yn parhau. Mae'r tîm prosiect a thîm cynllunio gwastraff rhanbarthol Gogledd Cymru mewn cyswllt â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn gyda golwg ar sicrhau na fydd fersiwn gyhoeddedig a therfynol o'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn gadael bwlch neu wagle yn y polisïau cynllunio. Mae'r risg yn parhau hyd oni fydd y fersiwn derfynol o'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd wedi'i chyhoeddi (disgwyllir i hynny ddigwydd ym mis Tachwedd 2011).

Nododd bod newid i risg bresennol F2 (cyllid) yn y cyfnod hwn (oedi gyda chaffael yn arwain at gostau caffael cynyddol oherwydd ymestyn y broses gaffael). Mae hyn yn codi ar ôl derbyn cais y cyfranwyr a chaniatáu estyniad i'r amserlen ISDS, tua 5 mis.

PENDERFYNWYD nodi'r gofrestr risg ddiweddaedig ar gyfer y prosiect.

4. DIWEDDARIAD CYFATHREBU

Rhoddodd Rheolwr y Prosiect ddiweddariad i Aelodau yng nghyswllt materion Cyfathrebu NWRWTP.

Roedd y gwaith ymgynghori'n dal i redeg ers cynnal y sesiynau i aelodau ym Mehefin 2011. Bydd adroddiad llawn ar gael yn y man yng nghyswllt canlyniadau'r broses



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

ymgyngori ond roedd teimlad y gallai fod yn beth da i'r Is-bwyllgor hwn petai'n derbyn rhyw arwydd cynnar o'r canlyniadau a dywedodd wrth yr aelodau am y gwaith oedd wedi'i wneud.

Bu'r ddwy sesiwn i aelodau ym Mehefin yn llwyddiant, yn arbennig y mater o aelodau'r awdurdodau partneriaethol yn dod at ei gilydd.

Hysbysebwyd sesiynau galw-heibio yn y wasg leol/cyfryngau trwy drefnu hysbyseb yn y papurau lleol ar draws ardal y pum awdurdod a hefyd rhyddhawyd cyfres o ddatganiadau i'r wasg. Hefyd cawsant eu hysbysebu ar wefan y prosiect. Yn ôl y disgwyl ychydig iawn ddaeth heibio ond rhaid cofio mai dyddiau cynnar y prosiect yw'r rhain. Cyflwynodd grynodedb o'r trafodaethau a gafwyd yn y sesiynau hyn.

Er na ddaeth rhyw lawer i'r sesiynau i grwpiau cymunedol roedd yr ymateb cyffredinol yn bositif iawn a chyfran dda iawn o'r rhai alwodd yn gefnogol i'r prosiect.

Ychwanegodd bod cyfarfodydd briffio wyneb yn wyneb wedi eu cynnal gyda'r wasg leol yn ystod Gorffennaf 2011 er mwyn hysbysebu'r broses ymgynghori a rhyddhawyd tri datganiad i'r wasg yn ystod Awst a Medi yn dwyn sylw at y sesiynau galw heibio ac at y dyddiad cau i dderbyn ymatebion. Yng nghyswllt yr holiadur ymgynghori cyfeiriodd at graffiau a hyd yma fe gafwyd 305 o ymatebion.

Roedd y Tîm Prosiect wedi trefnu cyfarfod gydag ymgynghorwyr technegol a chyfathrebu ar 21 Hydref 2011 i gynllunio gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu am y 12 mis nesaf. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyd-bwyllgor am ei ganiatâd unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad diweddarau.

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y materion a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y caiff ei diffinio ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd y gallai datgelu gwybodaeth sensitif a masnachol freintiedig yr adroddiadau arwain at dorri cyfrinachedd ac o bosib danseilio'r broses gaffael.

6. TRAFODAETH GYDAG ALWMINIWM MÔN YNGHYLCH SICRHAU RHAN O'R SAFLE I'R PROSIECT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Prosiect adroddiad manwl ar drafodaethau gydag Alwminiwm Môn a'r perchennog tir ynghylch sicrhau rhan o'r safle i'r prosiect. Dywedodd na fydd y safle dan sylw bellach ar gael i'r Bartneriaeth a bod y cyfranogwyr yn parhau i chwilio am safleoedd amgen ac eraill.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

7. DIWEDDARIAD AR Y MODEL LLIF GWASTRAFF

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Prosiect ddiweddariad ar y Model Llif Gwastraff ac yn arbennig ar y Tunelli Lleiaf a Gwarantedig y bydd gofyn i'r bartneriaeth eu cynnig fel rhan o'r trafodaethau masnachol gyda'r cyfranwyr.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

**EITEM AGENDA RHIF 6****ADRODDIAD CYNNYDD CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****Dyddiad: 27 Ionawr 2012****Cyfnod: 28 Medi 2011 i 19 Ionawr 2012****CRYNODEB Y PROSIECT**

I gaffael datrysiad rheoli gwastraff cynaliadwy i'r 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirilenwi ac yn lleihau'r tunelledd o weddillion gwastraff a anfonir i dirilenwi a thrwy hynny sicrhau fod yr awdurdodau'n osgoi'r cosbau tordyletswydd Cynllun Lwfans Tirlenwi (LAS) a chwrdd â thargedau'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

STATWS Y PROSIECT

Statws Cyffredinol y Prosiect	
Ambr	<p>Mae deialog gyda'r tri ymgwiswyr wedi parhau a faterion cyfreithiol, ariannol a thechnegol.</p> <p>Bu i gyfarfod cyhoeddus yn gwrthwynebu llosgi gwastraff ei drefnu a'i gynnal gan Cyngor Tref Cei Connah yn niwedd Tachwedd 2011. Lawswyd deiseb yn y cyfarfod, a mae'r wasg yn Sir y Fflint wedi adrodd bod y deiseb wedi cael dros 5,000 o lofnodau.</p>

Statws Cyllideb	
Gwyrdd	<p>Gwariant y flwyddyn ariannoll hon hyd at 19/08/11 yw £626,339.</p> <p>Gwariant y flwyddyn ariannoll hon wedi'w brofflio hyd at 31/07/11 yw £663,214 (dan broffil o £36,875).</p>

Statws	Ystyr
Gwyrdd	Nid oes unrhyw broblemau; popeth yn mynd ymlaen yn



	dda ac i'r cynllun
Ambr	Mae rhai problemau bach / llai. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn bwrw ymlaen yn foddhaol
Coch	Mae problemau sylweddol a rhai brys ac mae angen gweithredu pendant.

DIWEDDARIAD PROSIECT – Gweithgareddau sydd i'w cwblhau o 7^{fed} Ionawr 2011 i 18^{fed} Mawrth 2011 (a gweithredoedd tymor hirach sydd wedi'u lliwoleuo).

ID	Gweithgaredd	Statws RAG	Sylwadau	Rhagolwg	Gwirioneddol
32	Opsiwn wedi'i ddatblygu ar ail safle sydd â'r gallu i'w dderbyn gan y Cyd Bwyllgor	Ambr	Derbyniwyd lythyr gan Alwminiwn Môn yn hysbysu'r partneriaeth bod ei ymgeisiwr a ffefrir wedi nodi eu bod angen y rhan o safle bu i'r PTGGGC arwyddo penawdau'r telerau am. Nid yw'r tir felly ar gael bellach i'r PTGGGC.	Mai 2011	Wedi cwblhau Hydref 2011
72	Datrysiadau ISDS i'w cyflwyno gan gyfranogwyr	Ambr	Yn dilyn adborth gan yr ymgeiswyr a'r ymgynghorwyr i'r prosiect, mae'r dyddiad wedi'i newid o 20 Ionawr 2012 i 27 Ionawr 2012.	27 Ionawr 2012	
73	Asesiad o gyflwyniadau ISDS	Ambr	Prif wybodaeth wedi'i darparu i Swyddogion Cyllid, Technegol a Chyfreithiol cyn datblygu argymhellion i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd Bwyllgor	Chwefror 2012	
74	Cyfranogwyr yn cael gwybod am benderfyniadau'r bartneriaeth am ffordd / ffordd-rheilffordd, a'u	Ambr		Canol Mawrth 2012	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

	gwahodd i gyflwyno mireiniadau i'w cyflwyniadau ISDS o ystyried y penderfyniad				
75	Cyflwyniad o ISDS wedi'i Fireinio gan gyfranogwyr	Ambr		Ebrill / Mai 2012	
76	Gwerthuso cyflwyniadau ISDS wedi'i Fireinio	Ambr		Mai / Mehefin 2012	
78	Yr ail IAA (IAA2) i'w ddechrau	Gwyrdd	Hyn i ddechrau unwaith y bydd datrysiadau ISDS yn wybyddus (a'r strwythurau contract tebygol yn fwy pendant). Rhai trafodaethau rhagarweiniol a gwaith datblygiad i'w gynnal yn ystod haf 2011.	Tachwedd 2011	
80	Tim Prosiect a swyddog cyfreithiol arweiniol i gwedd a'r adran ystadau i drafod unrhyw anghysondebau yn y gwytodaeth teitlau	Gwyrdd	Cyfarfod wedi'i gynnal, anghysondebau wedi'i datrys, ond mae rhai o bwyntiau yn parhau.	4 Hydref 2011	Wedi'i cwblhau
81	Amser ychwanegol wedi'i roi ar gyfer ymatebion ymgynghorol	Gwyrdd	Pythefnos wedi ei ychwanegi er mwyn medru cynnwys mor gymaint o ymatebion ag y bo modd	7 Hydref 2011	Wedi'i cwblhau
82	Dadansoddiad llawn o'r ymatebion ymgynghorol	Gwyrdd	Gweler eitem 8 ar yr agenda	Hydref 2011	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

83	Adrodd yn ôl i'r cyhoedd ac atebwyr gyda canlyniadau'r ymgynghoriad	Gwyrdd	Gweler eitem 8 ar yr agenda	I'w gadarnhau	
84	Cynllun ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu am y 12 mis nesaf	Gwyrdd	Cynllun wedi'i cytuno. Gwaith paratoi yn cychwyn r gyfer y prif gamau.	21 Hydref 2011	
85	Cwrdd a Asiantaeth Amgylchedd Cymru i drafod materion technegol yn codi o'r cynnigion	Gwyrdd	Dull diwygiedig o gysylltu gyda'r Asiantaeth wedi'i gytuno. Yn bodoli rwan.	Tachwedd 2011	Wedi'i cwblhau
86	Deialog pellach cyn cynnigion ISDS	Gwyrdd	Gweler prif grynoded uchod	Rhagfyr 2011	Wedi'i cwblhau
87	Timau ariannol a thechnegol i'w ymgynghori ar yr asesiad ffordd / rheilffordd cyn y Cyd-Bwylgor	Gwyrdd	Prif Sywddogion ariannol a thechnegol i drafod y ffurf gorau i ymgynghori gyda'i grwpiau priodol. Papur asesiad ffordd / rheilffordd wedi attodi yn atodiad 1 isod.	Chwefror 2012	
90	Asesiad ffordd / rheilffordd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-Bwylgor	Gwyrdd	Tîm Prosiect wedi paratoi arweiniad ar gyfer Aelodau'r Cyd Bwylgor er mwyn iddynt ganfasio barn eu gyd Aelodau cyn y penderfyniad (yng nghyfarfod y Cyd Bwylgor ar 16 Mawrth 2012)	Chwefror / Mawrth 2012	
91	Derbyn cyngor chyfreithiol yn dilyn llythyrau a dderbyniwyd ynglyn a un o'r ymgeiswyr yn y	Gwyrdd	Cyngor chyfreithiol wedi derbyn a'r Partneriaeth wedi ymateb i'r llythyrau, ond mae ymateb pellach wedi'i	Chwefror 2012	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

	broses caffael		dderbyn wedyn. Angen gweithio gyda adain caffael CSFf i ymateb i'r pwyntiau a godwyd ac i gadarnhau'r cyngor cyfreithiol.		
92	Paratoi datganiad i'r wasg, a'r proses i hysbysu'r cyhoedd o'r penderfyniad ffordd/ rheilffordd	Gwyrdd	Pryd gwneir y penderfyniad, hysbysebu'r penderfyniad i'r cyhoedd a hapddalwyr	Canol / diwedd Mawrth 2012	
93	Paratoi pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i Aelodau a'r cyhoedd i'w ddefnyddio ar yr adeg priodol i drafod technoleg a safle cynigion	Gwyrdd	Drafft cynar wedi'i dderbyn, Tîm Prosiect yn adolygu ac addasu ar hyn o bryd.	Mehefin 2012	

RISGIAU ALLWEDDOL – Gweler eitem 6 ar yr agenda hon.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Atodiad 1 – Dull asesu ffordd / rheilffordd

Dull y Bartneriaeth at gwblhau'n derfynol ei gofynion mewn cyswllt â ffordd neu ffordd-rheilffordd.

Mae'r Bartneriaeth wedi hysbysu Cyfranogwyr o'i bwriad i asesu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghyflwyniadau ISDS y Cyfranogwyr er mwyn galluogi'r Bartneriaeth i gwblhau ei gofynion yn derfynol, er mwyn penderfynu p'un ai'r Opsiwn Ffordd ynteu Ffordd-Rheilffordd fydd y sail ar gyfer datblygu datrysiadau Cyfranogwyr ar gyfer y cyflwyniadau ISDS dilynol wedi'u mireinio a'r broses gwerthuso a dad-ddethol.

Mae'n bwysig nodi ar y cam hwn na fydd unrhyw Gyfranogwr, nac unrhyw ddatrysiad sy'n benodol i Gyfranogwr, yn cael ei asesu ar sail cyflwyniad-benodol ac ni fydd unrhyw Gyfranogwr yn cael eu dad-ddethol ar y cam hwn. Pwrpas y cam hwn yw tynnu'r wybodaeth berthnasol o gyflwyniad pob Cyfranogwr er mwyn caniatáu i'r Bartneriaeth wneud penderfyniad strategol lefel uchel ynghylch y prif ddull cludiant a fydd ei angen ar gyfer cyflenwi'r Project.

Fel y dywedwyd yn flaenorol, trefnwyd i wneud y penderfyniad ar Opsiwn Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor sydd wedi'i drefnu i'w gynnal ar 16 Mawrth 2012. Nid yw'r Bartneriaeth yn bwriadu darparu unrhyw adborth ar gynnwys cyflwyniadau ISDS cyfranogwyr unigol cyn cyflwyniad ISDS wedi'i fireinio yn unol â'r ITCD a gyhoeddwyd.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r crynodeb penawdau o ffactorau i'w hystyried yn yr asesiad Opsiwn Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd er mwyn ystyriaeth y Cydbwyllgor:

Dull cyffredinol

Bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiad wedi ei seilio ar gyflwyniadau ISDS Ffordd a Ffordd-Rheilffordd gan Gyfranogwyr. Bydd ymgynghorwyr allanol y Bartneriaeth yn asesu prif agweddau cyflwyniadau ISDS y Cyfranogwr. Tynnir gwybodaeth allan o'r cyflwyniadau, yn anhysbys (fel na ellir olrhain unrhyw wybodaeth cyflwyniad ISDS/ datrysiad arfaethedig) Cyfranogwr neilltuol ac asesu'r paramedrau canlynol:

Cost

I ddynodi'r gwahaniaeth cost (os o gwbl) rhwng yr opsiynau rheilffordd a ffordd. I'w gyflwyno fel cyfanswm costau anhysbys yn dangos yr amrediad cost ar gyfer bob "basged" o ddatrysiadau (Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd) a'r canolrif. I ddangos sut mae'r rhain yn cysylltu ag amlen fforddiadwyedd gyffredinol y Bartneriaeth fel y cymeradwywyd. Unrhyw wahaniaethau rhwng Ffordd a Ffordd-Rheilffordd yn nhermau cyfran y costau yn destun i fynegeoio, gofynion cyfalaf, pasio drwodd a threfniadau profi'r farchnad. Nodwch fod cyfarfod gyda swyddogion cyllid o bob un o'r pum awdurdod partner wedi ei



raglennu ar gyfer 29^{ain} Chwefror 2012, i'w briffio ar agweddau ariannol ac i geisio eu hadborth.

Amgylcheddol

Dynodi'r gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng Opsiynau Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd¹

- Aseiad WRATE - amrediad a chanolrif
- Osgoi milltiroedd ffordd – amrediad a chanolrif
- Effaith priffyrdd lleol (e.e. gwahaniaeth yn y nifer o symudiadau cerbyd yn y prif gyfleuster)
- Creu swyddi

Cyflenwadwyedd

Dynodi'r gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng Opsiynau Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd yn nhermau:

- Argaeledd / cyflenwadwyedd safleoedd (a threfniadau wrth gefn) i gefnogi datrysiadau wedi'u seilio ar Opsiynau Ffordd neu Ffordd-Rheilffordd
- Unrhyw ansicrwydd yn codi o wahanol ryngwynebau statudol (ee rhwydwaith rheilffordd)
- Hyd y rhaglen ac unrhyw ansicrwydd a ddynodwyd a allai effeithio ar y rhaglen

Risgiau Cyfreithiol Masnachol

- Gwahaniaeth mewn trefniadau trydydd parti/ is-gontractio
- Gwahaniaethau yn strwythur y Contract
- Gwahaniaethau mewn dyrannu risg yn y Contract

Gwybodaeth ychwanegol

Hefyd rhoddir gwybodaeth ychwanegol i'r Cydbwyllgor yn nhermau deilliannau agweddau perthnasol yr ymarfer ymgynghori a fydd wedi ei gwblhau cyn cyfarfod y Cydbwyllgor:

Cyflwyno'r Prif Ganfyddiadau

¹ Trefnir cyfarfod gyda swyddogion technegol o bob un o'r pum awdurdod partner i geisio eu hadborth ar ddeiliant agweddau technegol yr aseiad ffordd-rheilffordd.



Crynoir y prif ganfyddiadau mewn dull ansoddol fel yr amlinellir isod:-

Ffigwr 1 Datrysiadau rheilffordd (fel basged o ddatrysiadau) o'u cymharu â'r cymharydd sail (Basged o ddatrysiadau yn seiliedig ar y Ffordd)

Cost a fforddiadwyedd	Amgylchedd	Cyflenwadwyedd	Risgiau Cyfreithiol Masnachol
ayb	e.e ↑	ayb	ayb

Ffigwr 2 Ar gyfer bob un o'r prif bamedrau defnyddir yr arwydd ansoddol canlynol o berfformiad:-

Allwedd:

↑↑	↑	↑/↓	↓	↓↓	0
Sefyllfa glir, gref bositif mewn cymhariaeth â'r sail	Sefyllfa gyffredinol yn debygol o fod yn bositif mewn cymhariaeth â'r sail	Sefyllfa gyffredinol gymysg (h.y. positif a negyddol) mewn cymhariaeth â'r sail	Sefyllfa gyffredinol yn debygol o fod yn negyddol mewn cymhariaeth â'r sail	Sefyllfa glir, gref negyddol mewn cymhariaeth â'r sail	Aros yr un peth i bob pwrpas mewn cymhariaeth â'r sail



Tabl 1

Meysydd perthnasol cyflwyniadau ISDS a ddefnyddir i ddarparu'r brif wybodaeth

Nodyn: gellir adolygu meysydd eraill y cyflwyniadau fel bo angen.

Maes cyflwyniad ISDS perthnasol		Defnyddio ar gyfer asesu ?	Bwydo i
A1 - Cyflenwi gweithiau (MS 1)			
	A1.4 – Datblygu'r Cyfleuster, Mobileiddio a Threfniadau Comisiynu	ie	Cyflenwadwyedd (Effaith ar y rhaglen)
	A1.5 - Cyflenwadwyedd Safle a Chynllunio	ie	Cyflenwadwyedd
A3 - Amgylcheddol a chynladwyedd (MS 3)			
	A3.1 Cynladwyedd WRATE	ie	Amgylcheddol
	A3.2 Cynladwyedd ac eithrio. Cyflogaeth)	ie	Amgylcheddol
	A3.4 Cyflogaeth yn yr Ardal Partneriaeth	ie	Amgylcheddol
A4 – Rheolaeth Gwasanaeth (MS 4)			
	A4.4 – Datrysiaid Cludiant	ie	Amgylcheddol
	A4.7 – Cynllunio wrth gefn	ie	Cyflenwadwyedd
B1 – Ansawdd Ariannol			
	B1.1 Cadernid Ariannol	ie (dim ond gwirio cadernid rhagdybiaethau cyfalaf ac opex)	wedi ei ddefnyddio fel gwiriad yn unig i sicrhau fod y wybodaeth gost yn ddibynadwy
C1 - Cyfreithiol/Cytundebol			
	C1.1 – Strwythur y Contract, JV, Isgontractwyr	ie	Cyfreithiol/Cytundebol
	C1.2 – Pecyn Diogelwch Contract	ie	Cyfreithiol/Cytundebol
	C1.3 – Cytundeb Prosiect (SOPC4)	ie	Cyfreithiol/Cytundebol
	C1.5 - Yswiriant	ie	Cyfreithiol/Cytundebol
D1 - Cost Oes Gyfan a fforddiadwyedd			



	D1.1 Cost Oes Gyfan	ie	Cost a fforddiadwyedd
	D1.2 Fforddiadwyedd	ie	Cost a fforddiadwyedd
	D1.3 Profi Sensitifrwydd dan Wahanol Ragdybiaethau	ie	Cost a fforddiadwyedd

Asesiad Cyfreithiol

Cynhelir y prif werthusiad cyfreithiol trwy ymarfer cymharol rhwng y cyflwyniadau marcio ar gyfer y Cytundeb Prosiect i'r Opsiwn Ffordd a'r Opsiwn Rheilffordd-Ffordd, gan gymryd yr Opsiwn Ffordd fel y sefyllfa sail.

Cafodd y Cyfranogwyr fersiwn ddiwygiedig o'r tabl sylwadau o Atodiad 3 yr ITCD. Mae gan hwn golofn ychwanegol ar ddiwedd y tabl sy'n gofyn i'r Cyfranogwyr ddynodi p'un a yw'r mater/ sylw a godwyd yn y marcio Cytundeb Prosiect yn berthnasol i'r ddau gyflwyniad, ynteu'n benodol i un marcio'n unig. Bydd hyn yn galluogi dadansoddiad cyflymach o faterion sy'n benodol i'r Opsiwn Rheilffordd-Ffordd a bydd yn gymorth i ddynodi risgiau ychwanegol neu sefyllfaoedd cytundebol andwyol eraill i'r Bartneriaeth petai'n dewis symud ymlaen â'r Opsiwn Rheilffordd-Ffordd.

Hefyd bydd y gwerthusiad cyfreithiol yn ystyried pecyn diogelwch a'r strwythur contract, a dadansoddiad o unrhyw wahaniaethau a gynigir rhwng y 2 gyflwyniad.

Asesiad technegol

Bydd yr asesiad technegol yn cynnwys adolygiad cymharol o'r Opsiwn (Opsiyau) Ffordd-Rheilffordd a gyflwynir gan gynigydd unigol yn erbyn yr Opsiwn (Opsiyau) Ffordd a gyflwynir gan y cynigydd hwnnw. Asesir y datrysiad Ffordd a'r Ffordd-Rheilffordd yn erbyn y meini prawf amgylcheddol a chyflenwadwyedd, a restrir uchod. Rhoddir y dasg i arbenigwyr technegol AMEC i asesu'r cyflwyniadau gan ddefnyddio'u barn broffesiynol. Caiff adroddiad asesu cryno drafft ei lunio sy'n dynodi rhagoriaethau cymharol bob datrysiad yn erbyn bob un o'r meini prawf dynodedig. Ni fydd yr adroddiad yn enwi'r cynigwyr ond yn cymharu'n ffeithiol y datrysiadau Ffordd a Ffordd-Rheilffordd a dderbyniwyd.

Asesiad ariannol

- Bydd y wybodaeth mae'r tîm cyllid wedi ei sicrhau o gyflwyniadau'r cynigwyr a'u cyflwyno ar sail anhysbys fel a ganlyn:
 - Cost gyfartalog datrysiad ffordd
 - Cost gyfartalog datrysiad rheilffordd



- Canlyniadau sensitifrwydd y datrysiad ffordd
- Canlyniadau sensitifrwydd y datrysiad rheilffordd

2. Sylwadau a dadansoddiad

Rhoddir sylwadau a dadansoddiad o'r wybodaeth a dynnwyd o gyflwyniadau'r cynigwyr gyda graffiau cysylltiedig. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth Aelodau o gymaroldeb dadansoddiad cost y Ffordd/Rheilffordd byddwn hefyd yn darparu'r meincnodau canlynol:

- Achos Sail
- Targed Fforddiadwyedd
- Y Dewis Fforddiadwyedd
- Cynnig drutaf ar y cam ISOS

3. Cyfrifo cost gyfartalog y datrysiadau a dadansoddiad o'r canlyniadau sensitifrwydd

Y gost gyfartalog o'r datrysiadau ffordd a rheilffordd fydd cyfartaledd syml y 3 chais a gafwyd ar gyfer bob cynnig. Pan fo un o'r cynigion yn sylweddol wahanol i'r ddau arall ac y byddai'n arwain at sgiwio'r cyfartaledd naill ai'n bositif neu'n negyddol yna efallai y bydd angen addasu'r cyfartaledd er mwyn anwybyddu'r allanolyn. Mewn achos o'r fath, rhoddir naratif yng nghyswllt y sefyllfa fforddiadwyedd yn enwedig pan fo'r allanolyn yn cynrychioli'r cynnig drutaf. Felly rhoddir y wybodaeth ganlynol hefyd:

- A yw'r cynigion o fewn y targed fforddiadwyedd?
- A yw'r cynigion o dan cost yr achos sail?

Yng nghyswllt y Dadansoddiad Sensitifrwydd a chanlyniadau, rhoddir portread graffig o'r Gwriad Safonol i bob sensitifrwydd i bob datrysiad gyda sylwadau.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

EITEM AGENDA RHIF: 7

ADRODDIAD I: CYD BWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 27 IONAWR 2012

ADRODDIAD GAN: Y CYFARWYDDWR PROSIECT

PWNC: : ADRODDIAD Y GOFRESTR RISG

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae aelodau o Gyd Bwyllgor NWRWTP wedi gwneud cais i dderbyn diweddariad o'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Cyd Bwyllgor.
- 1.2. Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r diwygiadau i'r gofrestr risg sydd wedi'u gwneud i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risgiau a'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

2. CEFNDIR

- 2.1. Bydd angen diweddarau'r Gofrestr Risg yn barhaus drwy gydol y prosiect.

3. YSTYRIAETHAU

- 3.1. Nid oes risg ychwanegol wedi ei adnabod yn y cyfnod adrodd yma.
- 3.2. Mae'r newidiadau dilynol wedi ei wneud i risgiau presennol
 - Mae'r mater diweddar o Cynllun Sector Casglu, Isadeiledd a Farchnadoedd (CIM) gan LIC wedi arwain at ansicrwydd ynglyn â statws y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (CGRh). Mae'r sylwadau risg wedi ei addasu i adlewyrchu'r ffaith fod y Tîm Prosiect yn deallt bod y CIM erbyn hyn wedi'i ohurio tan gynar 2012 i adael fwy o amser am mewnbwn tîm cynllunio LIC.
 - CO4 (Pwysau gan grwpiau lobïo / y cyhoedd yn erbyn y datrysiad dewisiadol a'r lleoliad) wedi'i addasu i adlewyrchu'r ffaith fod ymgyrchwyr cenedlaethol erbyn hyn yn gweithio gyda cynghorau cymunedol lleol a cymunedau lleol i ymgeisio i adeiladu gwrthwynebiad i ymatebion potensial felly mae'r tebygolrwydd wedi codi o 3 i 4.
 - F13 (Ariannu LIC). Mae LIC wedi nodi bod yw unrhyw ddatrysiad sydd yn cynnwys adennill gwastraff yn methu cyrraedd (neu'n colli hwyrach ymlaen) statws effeilonrwydd R1, bydd risg o golli cefnogaeth ariannol LIC. Mae'r ymgeiswyr i gyd wedi cadarnhau yn ei gyflwyniadau amlinellol y byddai yn cyrraedd R1 (roeddwn nhw i gyd wedi tybio creu trydan yn unig yr adeg honno). Fodd bynnag os yw datrysiadau wedi ei gynllunio i gyfuniad o wres a phwer (CHP) ac yna fod unrhyw "gwsmeriaid" i'r gwres megis gwneithurwyr diwydiannol yn disgyn i ffwrdd, yna mae yna risg y byddai'n colli R1 ar yr adeg honno. Mae'r tîm technegol yn edrych ar y



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

mater ar y funud i gysidro pa mor debygol yw i'r datrysiad disgyn yn îs na R1 a dan ba amgylchiadau. Nid yw'r lefel risg wedi newid hyd hyn.

- 3.3. Mae'r 8 risg Uchaf (ar ôl gosod rheolaethau yn eu lle) yn cael eu dangos yn atodiad 1.
- 3.4. Dangosir y newidiadau yn y cyfnod hwn yn atodiad 2
- 3.5. Bydd y gofrestr risg yn parhau i gael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Prosiect a'i hadrodd i'r Cyd Bwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol Mae'r 8 risg uchaf

4. ARGYMHELLION

- 4.1. Bod y Cyd Bwyllgor yn nodi diweddariad y gofrestr risg ar gyfer y prosiect.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.01 Amherthnasol

5. EFFAITH GWRTH DLODI

- 5.1. Dim

6. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 6.1. Amherthnasol

7. EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 7.1. Amherthnasol

8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 8.1. Amherthnasol

9. ANGEN YMGYNGHORIAD

- 9.1. Amherthnasol

10. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

- 10.1. Amherthnasol



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

DEDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Stephen Penny NWRWTP



Atodiad 1 Prif risgiau a materion (Coch)

ID	Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project)	Consequence	Current Assessment			How the risk will be managed and controlled		Residual Risk			Additional explanatory notes
			Impact	L'hood	Overall	Already in Place	Not in Place (Proposed)	Impact	L'hood	Overall	
Policy & regulatory Risk – Change in WG objectives / regulations											
PO2	WG Environmental policy and objectives change	Project is now inappropriate	4	5	20	Keep in close contact with WG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early. The Project team have developed and submitted a partnership consultation response (approved by the PB and Joint Committee) highlighting the potential impact of such a target on the project and to ensure WG addresses how any such target is related to potential household numbers of population growth rates that authorities may be subject to in future.		4	4	16	WG have indicated in the final Municipal Sector Plan (MSP) that they may adopt a waste minimisation target for MSW with a negative growth rate (reduction) of -1.2% pa. The WG MSP does not take any account of individual or partner authority HH or population growth rates. The Partnership has however received guidance from WG that the Partnership is free to make its own assessments about future waste arisings and as a result planning risk is now moderated.
Communication & stakeholders – failure to proactively engage with key stake holders leading to delays and lack of public support for the proposed solution.											
